# Dirymu deddfwriaeth bwyd a diod a gymathwyd

## Rhagair

Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni adolygu sut rydym yn creu ac yn llunio fframwaith rheoleiddio'r Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer bwyd a diod.

Rydym yn y broses o werthuso cyfreithiau a gymathwyd a etifeddwyd gan yr UE – a oedd yn arfer cael eu galw'n gyfreithiau'r UE a ddargedwir (REUL) – i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu ein hanghenion. Rydym yn cyflwyno rhaglen o ddiwygio a dirymu er mwyn rheoli ein deddfwriaeth a'n rheoliadau, ac er mwyn symud ymlaen i gyfeiriad sydd o fudd i'r DU.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am farn ar restr o 60 o gyfreithiau bwyd, diod a chyfreithiau eraill a gymathwyd sy'n berthnasol i lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig:

- y credir eu bod wedi darfod neu fod angen eu diwygio
- yr hoffir eu dirymu neu eu diwygio er mwyn diweddaru'r llyfr statud

Byddai hyn yn ein galluogi i fod yn berchen ar ein fframwaith rheoleiddio.

Yn yr ymgynghoriad hwn, pan fyddwn yn defnyddio'r term 'darfod' rydym yn cyfeirio at ddeddfwriaeth yr ystyrir ei bod yn ddiangen oherwydd bod y rheoliad yn ymwneud â gofyniad, cynllun neu gytundeb nad yw'n weithredol mwyach, neu nad yw'n berthnasol i'r DU mwyach. Er enghraifft, caiff y ddeddfwriaeth ddiwygio offeryn statudol (OS) sydd eisoes wedi'i ddirymu. Felly, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfrannu'n weithredol at ein safonau domestig.

## Cefndir

### Beth yw cyfraith a gymathwyd?

Roedd cyfraith yr UE a ddargedwir yn gategori o gyfraith y DU a sefydlwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i sicrhau sicrwydd a pharhad cyfreithiol yn syth ar ôl Brexit, drwy ymgorffori a diogelu rhai o ddeddfau'r UE a rhai sy'n deillio o'r UE fel yr oedd yn union cyn 11pm ar 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, ni fwriadwyd erioed i gyfraith yr UE a ddargedwir fod ar y llyfr statud am gyfnod amhenodol. Dyma pam, ers 1 Ionawr 2024, mae wedi cael ei gymathu i lyfr statud y DU ac mae bellach yn cael ei alw'n gyfraith a gymathwyd.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno rhaglen o ddiwygio a dirymu ar gyfer y cyfreithiau hyn a gymathwyd o'r UE yn unol â'n rôl fel cenedl fasnachu annibynnol ar ôl i ni adael yr UE.

## Beth yw Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023?

Mae Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn caniatáu i'r DU gymryd y cam nesaf i ailddatgan sofraniaeth y Senedd.

Mae Deddf 2023:

- yn diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE mewn perthynas â holl gyfreithiau'r DU
- yn tynnu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE o holl gyfreithiau'r DU
- yn ei gwneud yn haws diwygio, dirymu a disodli cyfraith sy'n deillio o'r UE

## Datganoli

Mae amaethyddiaeth a bwyd yn bynciau datganoledig; fodd bynnag, mae materion cyffredin wedi cael eu nodi ledled y DU. Felly, er mwyn bod yn syml ac yn effeithlon, mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cytuno i gyhoeddi ymgynghoriad ar y cyd dan arweiniad Defra.

## Beth mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn yn ei gylch?

Gan gydnabod mai bwriad etifeddu cyfreithiau'r UE oedd fel mesur dros dro rhwng cyfraith yr UE a chyfraith y DU, gan ddefnyddio Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, mae Llywodraeth y DU nawr yn adolygu cyfreithiau a gymathwyd gan yr UE ac yn darparu rhaglen o ddiwygio a dirymu i gymryd rheolaeth dros ein cyfreithiau a'n rheoliadau a symud ymlaen mewn cyfeiriad sydd o fudd i'r DU.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar restr o gyfreithiau bwyd, diod a chyfreithiau eraill a gymathwyd a etifeddwyd gan yr UE y mae'r llywodraeth yn credu sydd wedi darfod ac y mae'n bwriadu eu dirymu neu y mae angen eu diwygio er mwyn ystyried y cyd-destun cyfraith ddomestig y mae'n berthnasol iddo nawr.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i ddirymu a diwygio'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i rhestru yn yr OS drafft a'r tabl crynodeb sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Nid yw'n gofyn am sylwadau am unrhyw ddeddfwriaeth arall nac unrhyw reoliadau neu bolisi bwyd a diod arall. O'r herwydd, ni fydd unrhyw ymatebion sy'n ymwneud â materion ehangach, gan gynnwys materion ehangach sy'n ymwneud â bwyd a diod nad ydynt yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, yn cael eu hystyried wrth lunio'r ymateb i'r ymgynghoriad.

## A fydd y dirymiadau neu’r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar safonau bwyd a diod yn y DU?

Mae’r DU ar flaen y gad o ran safonau diogelwch ac ansawdd bwyd, ac mae fframwaith deddfwriaethol cadarn yn cefnogi hyn. Ond mae’n gwbl briodol i ni werthuso cyfreithiau a gymathwyd i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu ein hanghenion. Er bod hwn yn gyfle i adolygu, mae cynnal safonau bwyd uchel y DU yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.

Mae’r llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i ddarparu labeli bwyd llawn gwybodaeth a hyrwyddo safonau bwyd cadarn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn:

- diogelu buddiannau defnyddwyr
- hwyluso masnach ryngwladol
- sicrhau bod defnyddwyr yn gallu ymddiried yn y bwyd y maent yn ei brynu

Nid yw Defra yn rhagweld y bydd dirymu neu ddiwygio unrhyw un o’r cyfreithiau arfaethedig a gymathwyd a etifeddwyd gan yr UE yn gostwng safonau. Rydym yn deall bod y darnau y bwriedir eu dirymu eisoes wedi darfod, y byddant yn darfod yn fuan neu y byddant yn darfod erbyn i’r ddarpariaeth berthnasol yn yr offeryn drafft ddod i rym. Felly, nid ydym yn credu y bydd cadw unrhyw ddeddfwriaeth ar ein llyfr statud domestig yn cyfrannu at gynnal safonau bwyd a diod y DU. Fodd bynnag, bydd unrhyw ymatebion i’r ymgynghoriad hwn sy’n nodi effeithiau ar safonau bwyd a diod yn cael eu hystyried.

## A fydd y dirymiadau neu’r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar safonau amgylcheddol?

Yn unol â Deddf yr Amgylchedd 2021, sy’n gosod dyletswydd ar Weinidogion y Goron i roi sylw dyledus i'r amgylchedd, gan ddefnyddio’r datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol, mae swyddogion y llywodraeth wedi adolygu a fyddai’r bwriad i ddirymu a diwygio’r cyfreithiau bwyd a diod a gymathwyd a restrir yn yr OS drafft yn effeithio ar yr amgylchedd.

Nid yw Defra yn rhagweld y bydd dirymu neu ddiwygio unrhyw un o’r darnau arfaethedig o gyfreithiau a gymathwyd a etifeddwyd gan yr UE yn gostwng safonau amgylcheddol oherwydd ein bod yn deall y bydd y darnau y bwriedir eu dileu yn darfod neu’n darfod yn fuan ac nad ydynt, felly, yn effeithio ar yr amgylchedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd unrhyw ymatebion i’r ymgynghoriad hwn sy’n nodi effeithiau ar safonau amgylcheddol yn cael eu hystyried.

## A fydd y dirymiadau arfaethedig yn cael effaith ar yr economi?

Diwydiant bwyd a diod y DU yw un o'r diwydiannau mwyaf yn y DU. Roedd 4.2m o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector bwyd-amaeth yn 2022, gyda £244bn yn cael ei wario ar fwyd, diod ac arlwyo yn 2022[1].

Er mwyn sicrhau bod gan y DU ddiwydiant bwyd a diod ffyniannus o hyd, mae Defra wedi ystyried a fydd y dirymiadau arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr economi.

Nid yw Defra yn rhagweld y bydd y dirymiadau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith economaidd ar ddiwydiant bwyd a diod y DU. Mae hyn oherwydd ein bod yn deall bod y darnau y bwriedir eu dileu, wedi darfod neu y byddant yn darfod cyn bo hir, felly nid ydynt yn effeithio ar yr economi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd dadansoddwyr Defra yn ystyried cynnal asesiad economaidd pellach o'r dirymiadau gan ddefnyddio ymatebion yn yr ymgynghoriad hwn os yw hynny'n briodol.

## Meysydd penodol i'w nodi

Er bod y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn y pecyn hwn wedi darfod ac y bwriedir ei dirymu, mae dau faes yn cynnwys diwygio: dangosyddion daearyddol ac addasu genetig. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y diwygiadau hynny.

## Newidiadau i'r dynodiadau daearyddol

Dim ond i Brydain Fawr y mae'r cynigion dynodiad daearyddol hyn yn berthnasol.

Bydd yr OS drafft yn dirymu deddfwriaeth, a gymathwyd a oedd yn darparu ar gyfer darpariaethau trosiannol amser cyfyngedig, i fod yn gymwys ar ôl i'r UE gofrestru dynodiadau daearyddol gwarchodedig sefydledig yn wreiddiol. Mae hyn er mwyn caniatáu i rai cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â manyleb y cynnyrch gael eu marchnata.

**Cyfnod amser y darpariaethau trosiannol**

Pan fydd y darpariaethau trosiannol eisoes wedi dod i ben, bydd y dirymu yn dod i rym ar y dyddiad y daw'r offeryn i rym, sef 6 Ebrill 2025.

Os nad yw'r darpariaethau trosiannol wedi dod i ben eto, bydd dirymu'r darpariaethau hynny yn galluogi gweddill y cyfnod trosiannol perthnasol i ddod i ben cyn i'r dirymu ddod yn weithredol.

Er enghraifft, bydd yr offeryn yn dirymu'r Rheoliadau uniongyrchol a gymathwyd sy'n cynnwys darpariaethau trosiannol yn ymwneud â 'Bayrisch Blockmalz', 'Haymilk', 'Kintoa', 'Pecorino del Monte Poro', 'Saucisson de Lacaune' a 'Saint-Marcellin, ar 6

[1] Food statistics in your pocket - GOV.UK (www.gov.uk)

Ebrill 2025, yn ogystal ag yn dirymu'r Rheoliad uniongyrchol a gymathwyd sy'n ymwneud â 'Havarti' ar 23 Mehefin 2026 a'r un sy'n ymwneud â 'Liliputas' ar 6 Ebrill 2030. Bydd yr holl enwau hynny'n parhau i gael eu diogelu, ond heb fudd y darpariaethau trosiannol.

**Cyflenwadau o gynnyrch**

Ar ben hynny, mae'r OS drafft yn dirymu deddfwriaeth a gymathwyd a oedd yn caniatáu gwerthu cyflenwadau o gynnyrch nad ydynt yn cydymffurfio o'r newydd ac sydd eisoes ar y farchnad, y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod trosiannol nes iddynt gael eu disbyddu. Bydd hefyd yn diwygio rhai darpariaethau i ystyried pa mor gymwys ydynt i Brydain Fawr.

Bwriedir i'r dyddiadau y daw dirymu'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â chyflenwadau wedi'u disbyddu i rym ganiatáu digon o amser i'r rheini sy'n marchnata cynnyrch o'r fath ddisbyddu eu cyflenwadau.

Er enghraifft, bydd yr offeryn yn dirymu disbyddu darpariaethau o gyflenwadau o ddarpariaethau sy'n ymwneud â 'Pražská šunka' ar 23 Mehefin 2026 a disbyddu cyflenwadau o ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r termau traddodiadol 'Opolo', 'Vrhunsko vino s kontroliranim zemljopisnim podrijetlom (Vrhunsko vino KZP)', 'Kvalitetno biser vino', 'Mlado vino, Vrhunsko pjenušavo vino' a 'Kalitetno vino s kontroliranim zemljopisnim podrijetlom' (Kvalitetno vino KZP) ar 23 Mehefin 2026.

Mae dyddiad dirymu disbyddu darpariaethau o gyflenwadau yn dibynnu ar natur y cynnyrch. Os yw rhanddeiliaid yn credu nad yw'r cyfnodau a ganiateir ar gyfer disbyddu cyflenwadau o gynnyrch o'r fath yn ddigonol, dylent ymateb i'r ymgynghoriad i nodi'r cynhyrchion yr effeithir arnynt a nodi'r hyn y maent yn ei ystyried yn gyfnod digonol ar gyfer disbyddu cyflenwadau o'r fath.

**Ymgorffori yng Nghyfraith Prydain Fawr**

Mae'r offeryn drafft hefyd yn diwygio rhai o'r deddfwriaethau dynodiadau daearyddol a gymathwyd yr effeithir arnynt er mwyn ystyried eu hymgorffori yng nghyfraith ddomestig Prydain Fawr. Bydd yr offeryn drafft yn dwyn ymlaen, gyda diwygiadau i allu i weithredu, ddarpariaethau penodol a fydd, drwy eithriad arbennig, yn lleddfu effaith y cyfyngiadau sydd fel arall yn gymwys i ddefnyddio enwau dynodiad daearyddol gwarchodedig penodol ar sail hirdymor (yn hytrach na throsiannol). Mae hyn yn golygu, yn yr achosion prin hyn, nad yw gwarchod yr enwau perthnasol yn atal enwau penodedig eraill sy'n debyg iddynt rhag parhau i gael eu defnyddio wrth farchnata cynnyrch ym Mhrydain Fawr, nad ydynt yn cydymffurfio â manyleb y cynnyrch ar gyfer yr enw gwarchodedig. Mae'r darpariaethau'n berthnasol i ddefnyddio enwau 'Krainer', 'Käsekrainer', 'Schweinskrainer', 'Osterkrainer' a 'Bauernkrainer' ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â manyleb y cynnyrch 'Kranjska'. Maent hefyd yn berthnasol i ddefnyddio'r enwau 'kulen' neu 'kulin' ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â manyleb y cynnyrch 'Slavonski kulen'/'Slavonski kulin'.

## Diwygiadau i addasu genetig (GM)

Mae'r diwygiadau hyn i addasu genetig yn berthnasol i Loegr yn unig.

Bydd yr offeryn yn dirymu Rheoliad a gymathwyd (CEE) Rhif 1728/74 o'r Cyngor dyddiedig 27 Mehefin 1974 ar gydgysylltu ymchwil amaethyddol (Rheoliad a gymathwyd 1728/74). Mae hyn yn ymwneud â chydlynu ymchwil rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE. Gan nad ydym yn Aelod-wladwriaeth bellach, mae'r ddeddfwriaeth hon yn ddiangen mewn perthynas â'r DU.

Mae gofynion parhaus o dan Reoliad a gymathwyd 1728/74 yn cynnwys darpariaethau i Aelod-wladwriaethau gyfleu crynodeb o gydsyniadau addasu genetig i gomisiwn yr UE. Nodwyd y crynodebau hyn ym Mhenderfyniadau'r Cyngor 2002/812/EC a 2002/813/EC a gymathwyd ac a ddiddymwyd gan Atodlen 1 i Ddeddf 2023.

Mae dirymu Rheoliad 1728/74 a gymathwyd (a'r ddau benderfyniad cysylltiedig gan y Cyngor a gymathwyd uchod) yn creu problemau gweithredu ar gyfer darpariaethau yn Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) 2002 (Rheoliadau 2002) sy'n cyfeirio at y crynodebau hyn. Felly, rydym yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddirymu rheoliadau 11(1)(d, 16(2)(j) a 34(3)(i) o Reoliadau 2002 sy'n cyfeirio atynt.

Mae gweddill Rheoliadau 2002 yn rheoleiddio gollwng Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO) i'r amgylchedd, ac mae'n cynnwys rheoliadau ar ollwng yn fwriadol, asesiadau risg amgylcheddol, monitro gollwng organeddau a addaswyd yn enetig am resymau ymchwil a datblygu, a marchnata organeddau a addaswyd yn enetig. Mae'r darpariaethau hynny'n cael eu defnyddio a'u cadw ac eithrio'r tri is-baragraff na ellir eu gweithredu, sy'n cael eu dirymu. Roedd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol ac Asesu Risg - Diwygio) 1997 (Rheoliadau 1997) yn diwygio dau OS: 1992/3280 a 1996/1106. Mae'r ddarpariaeth berthnasol yn OS 1992/3280 a ddiwygiwyd gan Reoliadau 1997 wedi'i dirymu ers hynny ac mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig berthnasol yn OS 1996/1106 wedi'i diweddaru. Felly, gan nad oes angen y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 1997 mwyach, bydd yr offeryn hwn yn dirymu Rheoliadau 1997.

Nid yw'r newidiadau hyn yn gostwng y safonau cadarn rydym yn eu defnyddio i reoleiddio organeddau a addaswyd yn enetig. Maent yn dileu'r angen am ffurflen, a oedd yn ofynnol gan yr UE – mae hon bellach yn ddiangen.

## Diben yr ymgynghori a'r bwriad i ddirymu neu ddiwygio cyfreithiau a gymathwyd

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y rhestr arfaethedig (gweler y tabl sydd wedi'i gynnwys isod) o gyfreithiau bwyd a diod a gymathwyd y mae Llywodraeth y DU yn ceisio eu dirymu a'u diwygio drwy OS gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Rydym yn cynnig y dirymiadau oherwydd bod y llywodraeth yn deall bod y cyfreithiau hyn yn gyfreithiau sydd eisoes wedi darfod neu a fydd wedi darfod erbyn yr adeg y bydd yr offeryn yn eu dirymu. Ein nod arfaethedig yw cael llyfr statud syml sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r DU heb effeithio ar ein safonau bwyd sydd o'r radd flaenaf.

Rydym yn cynnig y diwygiadau er mwyn ystyried y cyd-destun cyfraith ddomestig y mae'r cyfreithiau a gymathwyd yn berthnasol iddo nawr.

Rydym yn gofyn am farn unrhyw un sydd â diddordeb, arbenigedd neu brofiad mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu'r holl ddeddfwriaeth a restrir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Sylwch fod gan y ddeddfwriaeth wahanol rychwant tiriogaethol ar draws gwledydd y DU.

## Newidiadau penodol

Ceir copi o'r OS drafft a thabl o'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr OS isod.

Ar gyfer pob darn o gyfraith a gymathwyd, mae'r tabl yn cynnwys esboniad o bwrpas y ddeddfwriaeth, pam mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei dirymu neu ei diwygio, a ddisgwylir i hynny gael unrhyw effaith ar yr economi ac a oes deddfwriaeth gyfredol yn rheoleiddio'r mater neu os nad oes angen rhagor o ddeddfwriaeth.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bwriedir i'r dirymiadau a'r diwygiadau ddod i rym yn bennaf ar 6 Ebrill 2025 (dyddiad cydgychwyn). Fodd bynnag, bwriedir i rai o'r dirymiadau ar gyfer deddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth drosiannol i ddefnyddio disgrifyddion dynodiadau daearyddol penodol ddod i rym ar 23 Mehefin 2026 a 6 Ebrill 2030.

Gofynnwn i chi ystyried y newidiadau penodol hyn cyn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i'r DU yn unig.

### Offeryn Statudol - Cynhyrchion i'w Hadolygu

**Offeryn Statudol Drafft ar gyfer Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio, Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024:**

20240131-AFC04...

**Tabl Crynodeb:**

DEFRA
DEFRA_List_of_A...

### Sut mae ymateb

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 6 wythnos o 14 Mai 2024. Dylid ymateb erbyn 11:59pm ar 25 Mehefin 2024. Y ffordd orau i ni gael ymatebion yw drwy'r llwyfan Citizen Space ar-lein.

Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lwytho'r dogfennau ymgynghori i lawr ac anfon eich ymateb dros e-bost at AgriFoodChainPMO@defra.gov.uk. Defnyddiwch y cwestiynau isod i strwythuro eich ymateb.

Neu, gallwch argraffu'r dogfennau ymgynghori ac anfon eich ymateb drwy'r post at:

Agri-Food Chain PMO

Defra

3rd Floor Mallard House

Kings Pool

1-2 Peasholme Green York

YO1 7PX

## Ymatebion ymgyrchu

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol ar gyfer eu hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodau neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrchu fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion ymgyrchu ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau a geir yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion ymgyrchu yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimlad ar fater. Y llwybr sy'n cael ei ffafrio i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy lwyfan Citizen Space.

## Hysbysiad preifatrwydd a diogelu data

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Gall atodiad i grynodeb o'r ymgynghoriad restru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich data personol, eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat. Os byddwch yn ateb 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros

gyfrinachedd. Mae hyn oherwydd y gellir rhyddhau'r wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn i’r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â chyfraith mynediad at wybodaeth (sef Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) yn bennaf). Mae gennym ymrwymiadau, yn bennaf o dan yr EIR, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad o’ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o’ch ymateb yn ein helpu i gydbwyso’r rhwymedigaethau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd. Os byddwn yn derbyn cais am yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i’r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yn llawn eich rhesymau dros ofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn ateb ‘Na hoffwn’ mewn ymateb i’r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw’n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i’r cyhoedd, ond ni fyddwn yn cyhoeddi eich enw personol na’ch manylion cyswllt preifat i’r cyhoedd.

Gellir rhannu ymatebion ag adrannau eraill y llywodraeth. Efallai y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu’r wybodaeth rydych chi’n ei darparu, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi ymatebion i’r ymgynghoriad yn unig. Pan fydd Defra yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon, byddwn yn sicrhau bod gennym y cytundebau rhannu data cywir ar waith i ddiogelu eich data ac i lywodraethu’r berthynas rhwng Defra a’r trydydd parti. Defra sy’n cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori Swyddfa’r Cabinet. Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi’i lwytho i fyny fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â’n dogfen ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Agri-Food Chain PMO

Defra

3rd Floor Mallard House

Kings Pool

1-2 Peasholme Green

York

YO1 7PX

## Cwestiynau

Ein nod yw deall a fyddai dirymu neu ddiwygio’r cyfreithiau a gymathwyd a nodir yn yr OS drafft a’r tabl crynodeb cysylltiedig yn cael unrhyw effeithiau - cadarnhaol neu

negyddol - ar ddefnyddwyr, busnesau neu sefydliadau eraill. O ystyried natur eang y themâu sy'n cael eu trafod, rydym yn awyddus i gael barn amrywiaeth eang o randdeiliaid. I gefnogi'r dull hwn, rydym wedi cynnwys cwestiynau isod yr hoffem i chi eu hystyried yn eich ymateb.

## Cyfrinachedd

1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? (Gofynnol)
   a. Hoffwn
   b. Na hoffwn

Os mai hoffwn oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm/rhesymau:

## Gwybodaeth amdanoch chi

2. Ydych chi'n ymateb fel: (Dewiswch un opsiwn yn unig)

a. Unigolyn – Rydych yn ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol busnes neu gymdeithas fusnes neu sefydliad arall

b. Corff sector cyhoeddus – Rydych yn ymateb yn swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad llywodraeth leol neu ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus neu, gorff sector cyhoeddus arall yn y DU neu rywle arall

c. Diwydiant (un busnes) – Rydych yn ymateb yn swyddogol gan gynrychioli barn un busnes

d. Diwydiant (nifer o fusnesau) – Rydych yn ymateb yn swyddogol gan gynrychioli barn nifer o fusnesau neu, farn cymdeithas fasnach neu gymdeithas fusnes

e. Corff anllywodraethol – Rydych yn ymateb yn swyddogol fel cynrychiolydd corff anllywodraethol neu, sefydliad nid-er-elw neu sefydliad arall

f. Academia – Rydych yn ymateb fel arbenigwr fel aelod cyfadran neu ymchwilydd mewn sefydliad academaidd

g. Arall: rhowch fanylion

3. Os ydych yn ymateb fel 'Diwydiant (nifer o fusnesau)' yng nghwestiwn 2. Sawl busnes ydych chi'n eu cynrychioli? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

a. Llai na 25

b. Rhwng 25 a 100

c. Rhwng 101 a 250

d. Dros 250

e. Mae'n well gen i beidio â dweud

f. Amherthnasol

4. Os ydych chi’n ymateb fel ‘Diwydiant’ neu ‘Gorff anllywodraethol’ yng nghwestiwn 2, atebwch gwestiynau 4 i 7. Beth yw eich rôl yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod?

a. Cynhyrchydd
b. Prif brosesydd neu wneuthurwr
c. Dosbarthydd
d. Manwerthwr
e. Busnes lletygarwch
f. Corff masnach
g. Grŵp defnyddwyr
h. Arall: rhowch fanylion
i. Amherthnasol
j. Mae’n well gen i beidio â dweud

5. Beth yw enw eich busnes neu sefydliad?

a. Blwch testun

b. Amherthnasol

c. Mae’n well gen i beidio â dweud

6. A yw eich sefydliad yn un o’r canlynol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

a. Microfusnes neu ficro-sefydliad: 1 i 9 o weithwyr

b. Sefydliad neu Fusnes Bach a Chanolig (BBaCh): 10 i 249 o weithwyr

c. Sefydliad neu fusnes mawr: 250 o weithwyr neu fwy

d. Arall: rhowch fanylion

e. Amherthnasol

7. Ble mae eich busnes neu sefydliad yn gweithredu? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol)

a. Lloegr

b. Cymru

c. Yr Alban

d. Gogledd Iwerddon

e. UE: nodwch ym mha wledydd o’r UE rydych chi’n gweithredu

f. Gweddill y byd: nodwch ym mha wledydd rydych chi’n gweithredu

## (Adran ddewisol ynghylch dynodiadau daearyddol) Effaith y newidiadau arfaethedig ar y sector bwyd a diod

Os nad yw hyn yn berthnasol i chi neu'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli, ewch ymlaen i gwestiwn 10.

8. A fydd dirymu'r ddarpariaeth disbyddu cyflenwadau sy'n ymwneud â 'Pražská šunka' ar 23 Mehefin 2026 yn rhoi digon o amser i'r rheini sy'n marchnata cynnyrch ddisbyddu eu cyflenwadau o'r cynhyrchion hynny sy'n defnyddio'r enw hwn, nad yw'n cydymffurfio â manyleb y cynnyrch ar gyfer yr enw gwarchodedig?

a. Bydd, testun agored

b. Na fydd, testun agored

c. Ddim yn gwybod, testun agored

d. Amherthnasol

9. A fydd dirymu'r ddarpariaeth disbyddu cyflenwadau sy'n ymwneud â'r termau traddodiadol 'Opolo', 'Vrhunsko vino s kontroliranim zemljopisnim podrijetlom (Vrhunsko vino KZP)', 'Kvalitetno biser vino', 'Mlado vino, Vrhunsko pjenušavo vino' a 'Kalitetno vino s kontroliranim zemljopisnim podrijetlom' (Kvalitetno vino KZP) ar 23 Mehefin 2026 yn rhoi digon o amser i'r rheini sy'n marchnata cynnyrch ddisbyddu eu cyflenwadau o'r cynhyrchion hynny sy'n defnyddio un o'r termau hynny, nad ydynt yn cydymffurfio â manyleb berthnasol y cynnyrch ar gyfer yr enw gwarchodedig perthnasol?

a. Bydd, testun agored

b. Na fydd, testun agored

c. Ddim yn gwybod, testun agored

d. Amherthnasol

## Adran gyffredinol - Effaith newidiadau arfaethedig ar y sector bwyd a diod

10. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw un o'r dirymiadau neu'r diwygiadau arfaethedig, sydd wedi'u rhestru yn yr OS drafft a'r tabl sydd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad, yn cael effaith arnoch chi neu ar y sefydliad(au) rydych chi'n eu cynrychioli?

a. Ydw

b. Nac ydw

c. Ddim yn gwybod

d. Amherthnasol

11. Os ydych chi wedi dewis ‘Ydw’ ar gyfer cwestiwn 10, beth ydych chi’n meddwl fydd y prif effaith / effeithiau? Cyfeiriwch at effaith deddfwriaeth benodol yn eich ateb.

a.

i. Rhowch ddynodwr y ddeddfwriaeth (a geir yng ngholofn ‘A’ y tabl) (testun agored)
ii. Esboniad o effaith dirymu neu ddiwygio (testun agored)

Ychwanegu ymateb arall

b. Ddim yn gwybod

c. Amherthnasol

12. Ydych chi’n gallu darparu unrhyw dystiolaeth y bydd y dirymiadau neu’r diwygiadau o fudd i chi neu’r sefydliad(au) rydych chi’n eu cynrychioli neu’n eu rhoi dan anfantais? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw dystiolaeth sy’n ymwneud â: safonau bwyd a diod, safonau amgylcheddol, effeithiau economaidd, dynodiadau daearyddol neu addasu genetig.

a. Ydw: tystiolaeth o fudd(ion) o’r dirymiadau neu’r diwygiadau arfaethedig (nodwch y ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i hyn), testun agored

b. Ydw: tystiolaeth o anfantais/anfanteision o’r dirymiadau neu’r diwygiadau arfaethedig (nodwch y ddeddfwriaeth y mae hyn yn berthnasol iddi), testun agored

c. Nac ydw

d. Dim yn gwybod

13. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y dirymiadau neu’r diwygiadau arfaethedig yr hoffech eu rhannu? (Dewiswch un opsiwn yn unig).

a. Oes, testun agored

b. Nac oes

c. Ddim yn gwybod

## Y camau nesaf

Mae Defra yn bwriadu gwneud OS i ddirymu neu ddiwygio’r ddeddfwriaeth a gymathwyd sy’n dod o dan yr ymgynghoriad hwn.

Bydd Defra yn cyhoeddi ymateb i ganfyddiadau’r ymgynghoriad hwn i amlinellu’r amserlen a’r camau nesaf.